# GWEITHIWR CYFRANOGIAD

| | |
|---|---|
| TGP Cymru yw un o'r elusen fwyaf blaenllaw yng Nghymru, sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant, pobl ifanc, a theuluoedd sy'n agored i niwed trwy ystod o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Ariennir gwasanaethau TGP Cymru gan sawl cyllidwr ac maent yn darparu gwasanaethau ledled Cymru. | tgp CYMRU PLANT A THEULUOEDD CHILDREN AND FAMILIES |
| **Adran TGP Cymru:** Gwasanaethau i Deuluoedd | |
| **Yn gyfrifol i:** Rheolwr Tîm y Gwasanaeth Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches | |
| **Lleoliad:** Gweithio gartref gyda chylch gwaith Cymru gyfan a chyfleusterau desg boeth yng Nghaerdydd | |

**Diben y swydd:**

Darparu cyfranogiad a mentora i Blant a Phobl Ifanc 11-25 oed i'w galluogi a'u grymuso i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed gan arwain at newid cadarnhaol, i gynyddu lefelau hyder, ac i annog eu gallu i hunan-eirioli. Ceisio a hyrwyddo cyfleoedd cyfranogi newydd ac amrywiol i bobl ifanc i annog cynhwysiant a datblygiad personol. Helpu pobl ifanc i ddeall prosesau a systemau sy'n effeithio arnynt a chefnogi ymgysylltu drwy amrywiaeth o weithgareddau i wella lles a gwytnwch, mynd i'r afael ag unigedd ac annog integreiddio.

**Atebolrwydd / Cyfrifoldebau**

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau plant gyda Phlant a Phobl Ifanc a chodi ymwybyddiaeth a gwella gwybodaeth ynghylch cyfranogiad.
- Recriwtio pobl ifanc i fynychu grwpiau cyfranogi rheolaidd a manteisio ar gyfleoedd unigol.
- Hwyluso presenoldeb gwesteion mewn grwpiau cyfranogi fel siaradwyr neu i gyflwyno gweithdai neu weithgareddau sy'n seiliedig ar sgiliau.
- Cefnogi plant a phobl ifanc cymwys i fanteisio ar eiriolaeth
- Cefnogi plant a phobl ifanc i fanteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd cyfranogi a'u cyfeirio at wasanaethau eraill .
- Hwyluso aelodaeth Plant a Phobl Ifanc o Fforymau Ieuenctid lleol a chenedlaethol a'u cefnogi i ddylanwadu ar ddarpariaeth a gwasanaethau.
- Trefnu a hwyluso digwyddiadau ymgynghori, cyfranogi a chymunedol sy'n hyrwyddo ac yn atgyfnerthu cyfranogiad cyson ac effeithiol.
- Cefnogi Plant a Phobl Ifanc i greu taflenni, cylchlythyrau ac adnoddau cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo materion sy'n bwysig iddynt.
- Hwyluso gweithdai, fforymau a chyfarfodydd er mwyn i Blant a Phobl Ifanc allu symud ymlaen gyda materion ac ymgyrchoedd ehangach a nodwyd ganddynt, i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau a'r systemau sy'n effeithio ar eu bywydau.
- Nodi ymgynghoriadau perthnasol gan awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a sefydliadau perthnasol eraill a chefnogi Plant a Phobl Ifanc i ymateb iddynt.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Tîm i asesu allbynnau'r Gwasanaeth yn erbyn y fframwaith o ganlyniadau y cytunwyd arnynt drwy fonitro gweithgarwch a chasglu gwybodaeth briodol gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth

- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru gan gynnwys cyllid, adrodd, rheoli a diogelu data
- Hyrwyddo cyfle cyfartal ac ymarfer gwrth wahaniaethol drwy'r gwaith sy’n cael ei wneud yn y swydd
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y byddai’n rhesymol i’r Sefydliad ofyn amdanynt ac sy'n gyson â gradd y swydd.
- Rhwydweithio'n briodol gyda chydweithwyr a'r gymuned, gan gynnwys datblygu ymwybyddiaeth o wasanaethau TGP Cymru ymhlith gweithwyr proffesiynol perthnasol

**Dangosyddion Perfformiad**

- Cyfrifol am gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol a safonau ymarfer.
- Ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiad o’i gymharu â safonau a gofynion statudol, rheoleiddiol, sefydliadol ac arfer gorau.
- Cyflawni amcanion a thargedau’r gwasanaeth ac yn unigol.

**Cyfrifoldebau rheoli llinell:**
0

**Cyfrifoldebau rheoli cyllideb:**
£0

**Gradd:**
MS6

**Amodau gwaith:**
20 awr yr wythnos.

Mae angen gwneud rhywfaint o waith y tu allan i oriau swyddfa, sy'n gofyn am agwedd hyblyg at yr wythnos waith. Efallai y bydd angen gweithio yn ystod y penwythnos gydag ambell i arhosiad dros nos i fynd i hyfforddiant / cynadleddau / digwyddiadau neu rywbeth tebyg.

Teithio i leoliadau amrywiol sy’n gwneud trwydded yrru lawn a bod â chludiant gennych yn angenrheidiol.

**Cymwysterau:**

- Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a chymunedol neu ddisgyblaeth gysylltiedig megis Iechyd ac Addysg (dymunol)

**Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau:**

Bydd deiliad y swydd yn gallu:

- Cynhyrchu canlyniadau o safon uchel mewn modd amserol sy'n canolbwyntio ar y gwasanaeth a bydd yn ymrwymedig i gyflawni’r canlyniadau y cytunwyd arnynt
- Cydweithio'n dda â chydweithwyr a phartneriaid a chydnabod gwahanol syniadau, safbwyntiau a chefndiroedd pobl eraill

- Cynllunio a threfnu gwaith a rheoli amser yn effeithiol
- Cyfathrebu'n effeithiol h.y. mynegi gwybodaeth a syniadau mewn modd clir, cryno a chywir; gwrando'n weithredol a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu.
- Bod yn agored i ddulliau gweithredu a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd
- Chwilio am gyfleoedd ar gyfer dysgu parhaus a thwf proffesiynol

**Gwybodaeth / Profiad:**

Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth a phrofiad cadarn o:

- Profiad o weithio gyda Ffoaduriaid a phobl sy'n chwilio am Loches a gwybodaeth am y System Lloches (dymunol)
- Gyfranogi ac Ymgynghori
- Hawliau plant
- Gweithio mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc
- Gweithio gyda phlant a phobl ifanc i nodi sut a gan bwy y maent yn dymuno cael eu cynrychioli
- Gwybodaeth ynghylch Diogelu

**Eraill**

- Arddangos gwerthoedd ac ymddygiad TGP Cymru bob amser a’u hyrwyddo mewn eraill
- Wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Trwydded yrru lawn a chyfle i ddefnyddio trafnidiaeth (dymunol ond nid yn hanfodol)